Heol Y Bardd
Porth Tywyn
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA16 0NL
Pennaeth / Headteacher : Mr Craig Davies

01554 832101
admin@parcytywyn.ysgolccc.org.uk
www.ysgolparcytywyn.co.uk

# YSGOL GYNRADD GYMRAEG PARC Y TYWYN

*Annwyl Riant / Warcheidwad,*

Rwy'n falch iawn o fod yn gallu ysgrifennu fy llythyr cyntaf fel Pennaeth newydd Ysgol Gymraeg Parc Y Tywyn. Mae'r holl staff a'r plant wedi gwneud i mi deimlo'n gartrefol iawn ac rwy'n teimlo'n freintiedig o fod yn ymuno â'ch cymuned ysgol. Rwyf yn ymwybodol iawn o'r cyfrifoldeb sydd gan fy staff a minnau i sicrhau bod y safon uchaf o addysgu a dysgu yn amlwg ym mhob maes.

Ers fy mhenodi, yr wyf wedi cael y cyfle i ymweld â'r ysgol ar sawl achlysur ac i gyfarfod â Miss Jenkins, disgyblion, staff a Llywodraethwyr. Hoffwn ddiolch i Miss Jenkins am ei chymorth i sicrhau bod y cyfnod trosglwyddo i Bennaeth newydd mor esmwyth â phosibl.

Ymunaf â Pharc Y Tywyn o Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw lle roeddwn yn Ddirprwy Bennaeth ar yr ysgol am chwe blynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, derbyniais secondiad gan y Sir i fod yn bennaeth gweithredol ar YGG Gellionnen am flwyddyn a hanner.

Fy rôl fel Pennaeth Ysgol Gymraeg Parc Y Tywyn yw arwain gweledigaeth ar gyfer rhagoriaeth ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Fy nod yw sicrhau bod pob plentyn yn fy ngofal yn cyflawni eu llawn botensial yn academaidd; datblygu'r sgiliau angenrheidiol i fod yn llwyddiannus yn ein byd sy'n newid yn gyson; ac yn meithrin ymdeimlad cryf o Gymreictod. Bydd y nodau yma'n cael eu darparu drwy system fugeiliol gadarn, ymrwymiad i gynnig profiadau dysgu o ansawdd uchel ac ystod eang o weithgareddau diwylliannol, corfforol, chwaraeon ac allgyrsiol.

Edrychaf ymlaen at ddod i adnabod y disgyblion, y staff a chymuned yr ysgol y tymor hwn a chredaf fod gweithio mewn partneriaethau yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr holl blant yn teimlo bod yr ysgol yn brofiad cadarnhaol a gwerth chweil.

Credaf yn gryf bod cyflawniad a mwynhad yn mynd law yn llaw er mwyn sicrhau cynnydd rhagorol pob plentyn. Yr wyf yn gobeithio y byddwch yn cefnogi fy nisgwyliadau eithriadol o uchel ym mhob maes, yn enwedig o ran ymddygiad a chyflawniad.

Yr wyf yn sicr byddaf yn cyfarfod llawer o rieni yn ystod yr wythnosau nesaf. Yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu os oes gennych unrhyw ymholiadau, pryderon neu os oes unrhyw beth y gallaf ei wneud i helpu a'ch cefnogi â dysgu a bywyd ysgol eich plentyn.

Hoffwn ddiolch i chi yn bersonol am eich ymrwymiad parhaus a'ch cefnogaeth tuag at y staff a disgyblion yr ysgol hon.

Dymuniadau gorau,

*Mr C Davies*
Pennaeth YGG Parc Y Tywyn